STD 02-01(2) (W)

**Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD**

**Dyddiad: Dydd Mercher, 4 Ebrill 2001**

**Amser: 9.30am**

**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol**

**Teitl: Protocol gyda'r Heddlu – Adroddiad i Aelodau'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

## Diben

1. Adrodd ar y camau a gymerwyd i sefydlu Protocol ar gyfer Cymru gyfan rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Lluoedd yr Heddlu yng Nghymru a Gwasanaeth Erlyn y Goron ar gyfeirio honiadau o droseddau o dan Adran 72 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Ceir copi o'r Adran yn Atodiad A.

## Cefndir

2. O dan adran 72(6) Deddf Llywodraeth Cymru 1998 (y Ddeddf), y mae'n drosedd i Aelodau beidio â chydymffurfio â'r rheidrwydd iddynt Gofrestru a Datgan buddiannau penodol.

3. Ym mis Gorffennaf 2000, cytunodd y Cynulliad ar brotocol gyda Heddlu De Cymru a Gwasanaeth Erlyn y Goron er mwyn cyd-drefnu unrhyw ymchwiliadau a gyfeirir atynt i honiadau o droseddau o dan adran 72 y Ddeddf. Sefydlwyd y protocol gyda Heddlu De Cymru yn y lle cyntaf, oherwydd mai yn adeilad Bae Caerdydd y cedwir y Gofrestr o Fuddiannau Aelodau, a gan hynny y farn gyfreithiol yw mai yno y byddai unrhyw drosedd yn cael ei chyflawni.

4. Serch hynny, efallai y byddai angen cynnal swmp ymchwiliad i honiad o drosedd yn rhanbarth Llu Heddlu arall, er mai yn adeilad y Cynulliad y byddai'r drosedd wedi ei chyflawni yn ôl y gyfraith. Mewn achos o'r fath, byddai angen cydweithrediad y llu hwnnw. Mae'r protocol gyda Heddlu De Cymru yn cydnabod hyn, a hefyd yn cydnabod y gellid bod achosion eithriadol lle y byddai'n fwy priodol i honiadau gael eu hymchwilio gan lu arall.

5. Nododd rhaglen y Pwyllgor ar gyfer 2001 y dylid ehangu'r protocol cyfredol gyda Heddlu De Cymru er mwyn cynnwys lluoedd eraill yng Nghymru a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Byddai hyn yn sicrhau y cynhelid pob ymchwiliad o dan Adran 72 y Ddeddf mewn modd unffurf.

**Gweithredu**

6. Trafododd yr Ysgrifenyddiaeth y ffordd ymlaen gyda chynghorydd cyfreithiol y Cynulliad. Argymhellir y cynhelir trafodaethau gyda phob llu heddlu yng Nghymru a chyda Gwasanaeth Erlyn y Goron, er mwyn sefydlu protocol ar gyfer ymdrin â sefyllfaoedd lle bydd y Pwyllgor yn cyfeirio honiadau o drosedd o dan Adran 72 y Ddeddf.

**Y Camau Nesaf**

7. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn ymgynghori â'r cyfreithiwr ar ran Heddlu De Cymru sy'n cyfrannu at y broses o ddrafftio'r protocol presennol, a chyda chynrychiolwyr y Lluoedd eraill yng Nghymru, ar brotocol diwygiedig ar gyfer Cymru gyfan.

**Yr Ysgrifenyddiaeth**

-----------------------------7d1223141570036e Content-Disposition: form-data; name="add_id_2"